**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Dawn Primarolo
Cadeirydd y Bwrdd Taliadau

8 Rhagfyr 2017

Annwyl Gadeirydd

Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyllid, am beth amser, wedi bod yn pryderu am y modd y mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.

Fel rhan o'n gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19, roeddem yn eiddgar i ddeall sut y mae'r elfen ar gyfer Penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau yn cael ei phennu a sut y caiff unrhyw danwariant ei ddyrannu yn dilyn hynny. Roedd ein prif bryderon yn canolbwyntio ar y modd y mae'r Comisiwn yn defnyddio'r tanwariant hwn, a'r tryloywder sy'n bodoli o ran cyfanswm yr arian sydd ar gael i'r Comisiwn.

Ym mis Hydref 2017, cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar Gyllideb ddrafft y Comisiwn, a chytunodd y dylai gynnal ymchwiliad byr i gadarnhau sut y mae seneddau eraill yn y DU a thu hwnt yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau, a hynny er mwyn penderfynu a yw'n fodlon bod y Comisiwn yn pennu ei gyllideb yn y modd mwyaf tryloyw ac effeithiol posibl.

Roeddwn am gymryd y cyfle hwn i roi gwybod i chi ein bod wedi cytuno, yn ystod ein cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2017, ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ein hymchwiliad:

Ystyried:

- sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn rhagweld ei gyllideb ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau;
- a yw'r ffordd y mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu gwybodaeth am y tanwariant yn glir ac yn dryloyw;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

- sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu defnyddio'r tanwariant ar ôl cyllido penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau; a
- sut y mae seneddau eraill yn y DU a thu hwnt yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â chyflogau a lwfansau Aelodau.

Rydym yn cydnabod nad yw cyllideb y Comisiwn yn fater y byddai'r Bwrdd Taliadau yn ymwneud ag ef. Serch hynny, roedd y Pwyllgor am eich hysbysu ynghylch yr ymchwiliad, rhag ofn bod gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'r clerc: Leanne Hatcher, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6343, SeneddCyllid@cynulliad.cymru

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*